

Tasg 1

Wrth ddilyn Fframwaith Cyfnod Sylfaen gan Lywodraeth Cymru (2015b) mae gan blant ifanc y gallu i ddatblygu llawer iawn o sgiliau newydd drwy chwarae. Mae chwarae yn rhan allweddol o fywyd plentyn ac yn cefnogi ac yn ehangu datblygiad ei daith dysgu. Gall blentyn datblygu aml sgiliau drwy chwarae megis “llythrennedd, creadigrwydd, emosiynol a chymdeithasol” (Llywodraeth Cymru, 2015b). Wrth roi y dewis o wahanol fathau o chwarae i blentyn ac wrth bwysleisio ar ddysgu drwy chwarae mae hyn yn rhoi llawer iawn o gyfleoedd er mwyn ehangu eu sgiliau personol. Mae'r cwricwlwm yng Nghymru yn seiliedig ar ddysgu drwy chwarae ac yn pwysleisio sut gall plant cael y rhyddid o chwarae hunan cyfeiriedig heb i oedolyn amharu yn y chwarae. (Llywodraeth Cymru, 2015b)

Creda Bottrill (2018, tud. 25-30) fod chwarae yn rhan allweddol o fywyd plentyn ac mae y cysyniad o chwarae wedi ei gamddeall ar hyd y blynyddoedd diwethaf. Wrth roi gofod gwag ac amser i blentyn i ymchwilio ac i ffocysu ar chwarae ei hunain mae'r plentyn hefyd yn ymarfer ei ymennydd i ddatblygu sgiliau penodol.

Mae gan yr oedolion y rôl a chyfrifoldebau o feithrin amgylchedd sydd yn cefnogi ymddygiad plant sydd yn rhydd ac yn hollol hunain dewisol. Mae yna 3 rheol tu ôl i chwarae hunan cyfeiriedig. Yn gyntaf dewis rhydd ble mae'r plant fel unigolyn yn dewis pryd, sut a beth i'w chwarae. Yn ail gyfarwyddyd personol a taw penderfyniad y plentyn ydy i ddewis y rheolau a'r rolau yn y chwarae. Yn drydydd cymhelliant cynhenid, bod y chwarae yn cael ei wneud er mwyn ei hunain a dim i'w wobrwyo. (Chwarae Cymru, 2021b)

Chwarae yn gorfforol –

Mae'r datblygiad corfforol yn un o'r saith maes dysgu yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen gan Lywodraeth Cymru (2015b). Mae'r maes dysgu yma yn ehangu datblygiad sgiliau echddygol bras, sgiliau echddygol manwl, deallusrwydd cyrff a sut i fod yn iachus. Dylai fod datblygiad corfforol yn cael ei gyfuno i mewn yn naturiol drwy gydol y dydd a bod yna ddigon o gyfleoedd tu fewn a thu allan i ddatblygu y sgiliau hyn. Mae sgiliau allweddol bras yn rhan allweddol o ddatblygiad plentyn i fynd ymlaen i allu datblygu'r sgiliau eraill (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2018a). Os nad yw'r plentyn yn gryf yn ei sgiliau echddygol bras gall hyn ei rhwystro rhag gallu symud ymlaen i ddefnyddio ei sgiliau echddygol

manwl er mwyn gallu chwarae gemau bys a bawd neu dal pensil yn y dyfodol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a). Er mwyn datblygu ei sgiliau echddygol bras rhaid bod gan y plentyn y siawns i ddatblygu'r cyhyrau mawr yn y coesau a'r breichiau. Dilynwyd hyn gyda datblygu sgiliau echddygol manwl sydd yn ymwneud gyda'r cyhyrau bach yn y cyrff. Mae'r datblygiadau yma yn cael ei ehangu o hyd ac mi fydd sgiliau newydd yn cael ei ddysgu yn ddyddiol. Mae hyn yn dibynnu ar anghenion datblygu personol y plentyn. (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a)

Chwarae Creadigol –

Mae datblygiad creadigol yn rhan allweddol o blentyndod a datblygiad plentyn (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008b). Dylai cyfleoedd creadigol cael ei ddatblygu ar draws y cwricwlwm ac mae'r maes dysgu yma yn ehangu creadigrwydd unigol y plentyn a sut maent yn portreadu rhywbeth. Yn ôl Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008b) mae angen rhoi'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, dychmygus a mynegiannol mewn celf, dylunio, crefft, cerddoriaeth, dawns ac i symud. Pan mae plentyn yn chwarae creadigol a ddychmygus maent yn ehangu ei sgiliau emosiynol, cymdeithasol, deallusrwydd a chorfforol. Maent yn annog plentyn i rannu ei feddyliau ai theimladau gydag eraill ac i rannu ei syniadau sydd yn ehangu ei ddatblygiad personol. (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008b)

Mae gwahanol feysydd dysgu a datblygiad cyfannol y plentyn yn gallu ei ddatblygu gydag un ardal chwarae. Mae llawer iawn o sgiliau yn cyfuno ac yn croesi o hyd. Wrth wneud yn siwr fod gan yr ardaloedd yn y dosbarth yr adnoddau ar wagle cywir mae hyn yn ehangu datblygiadau'r plant ac yn rhoi'r cyfleoedd o chwarae hunan cyfeiriedig. (Blynyddoedd Cynnar Cymru, 2020)

Dyma enghraifft:

Cegin fwd – Dywedai Hands on as we grow (2021) wrth chwarae a mwd mae hyn yn dod ag hapusrwydd i lawer o blant, maent yn datblygu ei chreadigrwydd wrth chwarae gyda phlant eraill. Mae hyn yn cyfuno a sgil corfforol sydd yn datblygu sgiliau echddygol bras a manwl plentyn. Mae defnyddio teclynnau cegin i gyd yn rhan o ddatblygu sgiliau

echdddygol manwl y plentyn ac wrth ddefnyddio y rhain i gymysgu ar raddfa fawr a bach, plygu i lawr, estyn am declyn maent yn datblygu ei sgil echdddygol bras. Datblygu ar ei sgiliau synhwyrdd, ydy'r mwd yn wlyb neu yn sych? Mae chwarae synhwyrdd yn hanfodol i helpu datblygiad yr ymennydd ac yn cysylltu nerfau gyda'i gilydd sydd yn helpu'r dysgu. Archwilio a mwd yn agosáu plant i'r natur o'i chwmpas, ac yn dysgu yn fwy ymarferol sydd yn ehangu sgiliau bywyd pwysig. Gwyddoniaeth yw'r sgil arall sydd yn cael ei chyfuno gydag un ardal. Arbrofi gyda mwd, dŵr ar hyn sydd o'i hamgylch. Sydd yna yn datblygu ac yn symud ymlaen i sgiliau datrys problemau. Maent yn ehangu sgiliau dychmygol sydd yna yn cael ei chyfuno a sgiliau cymdeithasol, wrth i'r plant defnyddio ei dychymyg maent yn rhannu ei syniadau boed yn eiriol, iaith corff, cyswllt llygaid, agosrwydd neu yn copïo'r plentyn arall. Nid dim ond un sgil sydd yn cael ei ddatblygu'r un pryd pan mae plant yn chwarae hunan cyfeiriedig, mae sgiliau gwahanol yn cyfyngu o hyd yn ddyddiol pan mae'r plentyn yn cael y cyfleoedd agored yma. (Brown a Cheesman, 2010, tud. 51)

Tasg 2

Dywedai seicolegydd Gray (2013) bod risg yn hanfodol i blentyndod plant, mae angen i blant i fod yn agored i chwarae risg. Os nad yw plentyn yn agored i risg maent yn gallu ymyrryd ar iechyd meddwl a chreu problemau yn y dyfodol. Credai Gray (2013) bod atal plant rhag profi a rheoli risg drostyn nhw eu hunain yn gallu achosi rhywfaint o gynydd mewn gor bryder, straen ac iselder sydd yn cael ei adnabyddi yn llawer o blant heddiw. Dywedai nad oes gan blant y rheolaeth o fywydau ei hunain ac yn colli ymdeimlad ar ei hunain. Yn ei ymchwil credai bod anhwylderau emosiynol a chymdeithasol yn digwydd os nad oes plentyn yn chwarae. I chwarae hunan cyfeiriedig sydd dan arweiniad y plentyn yn unig sydd yn fwyaf buddiol. Yn debyg iawn i ymchwil Sandseter a Kenmair (2011) sy'n cefnogi pam mae cymryd risg yn hanfodol i blant. Gwelwyd yn yr ymchwil fod yr astudiaeth yn dangos yr ofnau a'r ffobiâu sydd gan blant yn ei phlentyndod. Wrth edrych ar yr astudiaeth gwelwyd fod yr angen yma am chwarae peryglus yn hanfodol i ddileu y pryder yma. Dywedai wrth i blant chwarae yn agored heb arweiniad oedolyn mewn gwagle cyffrous ac yn anturus mae hyn yn tynnu'r teimladau o fod yn ofnus wrth y chwarae ac yn fwy tebygol o gymryd risg. (Sandseter a Kenmair,2011)

Yn ôl Chwarae Cymru (2008a) dywedai fod modd i oedolion i gefnogi'r plant wrth annog i chwarae risg drwy ei atgoffa fod damweiniau yn gallu digwydd ac yna gall hyn helpu y plentyn i ofalu am ei hunain. Mae angen annog y plant i gymryd risg ac i wrando ar farn ei hunain yn hytrach na throi at oedolyn i'w gysuro, i annog plant hefyd i ymddiried yn ei hunain wrth gymryd risg. Ydw i yn gallu gwneud hyn? Ydy hyn yn beryglus? Rôl yr oedolyn ydy i wneud yn siŵr nad ydynt yn gwneud y plentyn yn fwy pryderus wrth fod yno. I roi y sialens ar hyder iddynt i wneud y penderfyniad o fod yn saff yn ei byd bach nhw. Yn debyg i be ddywedodd Holecko (2020) fod angen i'r ymarferydd i gadw mewn cof fod yna llai o risg i blant tu allan yn yr awyr agored nac tu fewn yn ei chartrefi ac i annog plant i fynd allan ac i fynd ar antur. Nid y modd yw rhoi'r plant mewn risg enfawr ond er mwyn rhoi'r penderfyniad o asesu risg ei hunain ac rôl yr oedolyn ydy i gefnogi plant ac i baratoi i'r dyfodol. Mae rhoi plant yn wreiddyn y chwarae ac i fod yn gefnogol o'r plentyn i gymryd risg yn ddyddiol yn helpu datblygiad sgiliau bywyd ac i adeiladu ystywythder i reoli risg ei hunain. (Holecko 2020)

Gwelwyd yn ymchwil Sandseter a Sando (2016) fod sefydliadau yn ofni gadael plant i gymryd risg am ei fod am greu anaf a bod yna ffocws enfawr ar ddiogeli yn hytrach rhag gadael i blant i chwarae yn fwy rhydd. Mae gwahardd y chwarae yma yn cael effaith ar ddatblygiad, dysgu a chwarae, yn hytrach nag rhoi'r teimlad positif a chyffrous i'r plant wrth gymryd risg. Gall hyn achosi difrod i iechyd meddwl plentyn wrth deimlo yn bryderus iawn.

Mae hyn yn cefnogi theori Montessori yn Montessori Nature (2021) fod chwarae risg yn rhoi'r deimlad ecstatig sydd yn cryfhau plant i oresgyn teimlad ansicr sydd yn rhoi anghysured i feddyliau ei chyrff yn y dyfodol. Mae angen rhoi risg iachus i blentyn er mwyn ehangu ei dewrder, chwilfrydedd a'r cariad at chwarae rhydd.

Dywedai Play Scotland (2021) er mwyn cefnogi plant yn y sefydliadau mae gan y sefydliadau'r cyfrifoldebau o wneud asesiadau risg er mwyn gwneud y chwarae yn ddigon diogel i blant i allu chwarae yn annibynnol. I edrych ar y risg y gallai'r plant ei gymryd a sut mae hyn yn fuddiol i ddatblygiad corfforol a lles y plentyn. Mae angen rhoi'r elfennau o risg yma i blant wrth ddefnyddio dulliau hawdd i gefnogi chwarae ac i ddefnyddio'r sgiliau yn bositif wrth gydnabod manteision yn chwarae heriol.

Yn ôl McInnes, Howard, Crowley a Miles (2013) casglwyd fod plant yn cael effaith positif ar les wrth fwynhau ac i ymgymryd mewn gweithgareddau fel gweithgaredd chwarae sydd yn hunan cyfeiriedig. Pan mae'r plant yn cael amser a gofod i chwarae yn hunan cyfeiriedig adroddwyd fod y chwarae yma yn helpu i arsylwi ymddygiad plentyn sydd yna yn dangos tystiolaeth fod chwarae yn gwella lles emosiynol.

Tasg 3

Mae Llywodraeth Cymru (2017c) yn hyrwyddo fod Proffil y Cyfnod Sylfaen yn fuddiol iawn i asesu datblygiad plentyn 3 i 7 oed. Mae'r proffil yn ymddangos cipolwg o ble mae'r plentyn yn ei cham ddatblygu wrth ganolbwyntio yn gyntaf ar bedwar maes dysgu. Mae'r proffil yma yn annog ymarferwyr i ddarparu a pharatoi ystod eang o weithgareddau sydd yn ddatblygiadol i'r plentyn. Mae'r meysydd dysgu yn cynnwys Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, Datblygiad Mathemategol a Datblygiad Corfforol. Fel y dywedai Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011c) maen statudol yng Nghymru ers mis Medi 2015 fod asesiad sylfaenol yn cael ei gwblhau yn y 6 wythnos gyntaf yn yr ysgol a chyfrifoldeb yr ymarferydd ydy i asesu'r plant drwy gydol y Cyfnod Sylfaen tan ddiwedd blwyddyn 2 er mwyn gweld cynnydd yr unigolyn. Mae gan y proffil yma'r ddawn i asesu plant yn ffurfiol er mwyn adeiladu sefydliad cyfrannol yn ddatblygiadau'r plant yn y meysydd allweddol. Mae'r canlyniad yn dangos yn glir beth yw cynnydd unigol y plentyn ac yn tracio datblygiadau, gwelwyd os oes yna unrhyw oedi yn y datblygiad mae hyn yn hysbysu bod angen dysgu ychwanegol ar yr unigolyn. Mae gwybodaeth y proffil cryno ar gael gan Lywodraeth Cymru (2017c) i'r ymarferydd er mwyn deall pob deilliant yn glir ac yn gryno. Dywedwyd yn hytrach nag profi plant yn gyson yn y blynyddoedd cynnar mae hyn yn galluogi adeiladu ystod eang o dystiolaeth am y plentyn wrth dracio datblygiad yn y blynyddoedd cynnar.

Cysylltwyd y proffil y Cyfnod Sylfaen gan Lywodraeth Cymru (2017c) law yn llaw gydag Addysgeg Dysgu ac Addysgu gan Lywodraeth Cymru (2008a) er mwyn i'r ymarferwyr i ddysgu ac i ddeall am y plentyn yn unigol yn ogystal â datblygiadau personol. Mae'r asesiadau wedi cael ei gynllunio i helpu i godi unrhyw bryder yn yr unigolyn os nad oes cynyddiad yn y datblygiad, mae hyn yn codi ymwybyddiaeth i'r ymarferydd i ddiffinio pa unigolyn bydd yn buddio o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anghenion addysgol arbennig (AAA). Wrth roi ymyrraeth un i un neu mewn grŵp i'r unigolyn mae hyn yn rhoi cefnogaeth bositif ac yn cadw olrhain o beth yw ei anghenion dysgu unigol.

Cefnogai Llywodraeth Cymru (2017c) fod yr angen i arsylwi'r plant tu fewn a thu allan ac mae hyn yn hanfodol i weld sgiliau unigol y plentyn. Mae arsylwi yn rhan bwysig iawn o

fywyd yn y Cyfnod Sylfaen, drwy arsylwi yn ffurfiol neu ddefnyddio nodiadau bras, a dyma ble darganfuwyd pa gamau cynnydd priodol sydd eisiau ar yr unigolyn a hefyd gwelwyd beth yw gallu unigol y plentyn. Dyma ble y gwelwyd os nad oes cynnydd yn un neu fwy o'r meysydd bydd angen yr help ychwanegol yma ar yr unigolyn i gynyddu ei gallu ac i gyflawni potensial llawn.

Fel y dywedai Llywodraeth Cymru (2017c) fod datblygiad cyfrannol yn ddull dysgu plentyn sydd yn pwysleisio yn fwyaf ar bwysigrwydd ddatblygiad corfforol, emosiynol a lles yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar y plentyn. Y modd o annog ymarferydd i ffocysu ar ddatblygiad cyfrannol fel y technegau o ddysgu yn hytrach nag ffocysu ar yr hen ffordd o asesu'r cynnydd a datblygiad addysg y plentyn. I ffocysu ar gysylltiadau yn ei chyrrff, yn feddylol ac i gynnwys datblygiadau yn wir heb unrhyw ddifrod i ddiwylliant, cefndir economaidd gymdeithasol, rhyw ac oedran. Wrth i'r ymarferydd gynllunio gweithgareddau sydd yn adeiladu perthynas gref gydag addysgu mae hyn yn datblygu dealltwriaeth am natur a datblygiad cyfrannol. Mae Llywodraeth Cymru (2015b) yn annog ymarferydd i gefnogi plant drwy ofyn cwestiynau agored, i wrando yn ofalus ar y plentyn, i ymateb ac awgrymu syniadau priodol a gofalu am y plant. Mae hyn yn rhan allweddol o ddarparu gwasanaeth cyfrannol. Anogwyd fod ymarferydd yn chwarae ochr yn ochr â phlentyn, i arsylwi a nodi sgiliau a diddordebau'r plant ac i gynllunio ar gyfer camau cynnydd unigol y plentyn mae hyn yn hybu addysgeg dda yn y Cyfnod Sylfaen.

Tasg 4

Dywedai Lewis a Carpendale (2018) fod theori Piaget yn dangos bod y plentyn yn adeiladu ar y wybodaeth sydd ar gael yn barod. Wrth dderbyn adborth positif gall plentyn adeiladu yn term Piaget 'scaffold' ar y wybodaeth sydd ar gael i'r plentyn er mwyn ei ddefnyddio fel gwreiddyn y dysgu ac i wneud synnwyr o'r byd o'i chwmpas. Mae Lewis a Carpendale (2018) yn dangos fod plentyn yn datblygu drwy bedwar cam o ddatblygu gwybyddol ac mae'r camau yma yn helpu'r ymarferydd i asesu yn y ffurf orau yn y gweithle. Hynny yw os ydy plentyn yn blentyn mwy abl a thalentog (MAT) neu yn blentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mae asesu'r ffordd yma yn hanfodol i allu rhoi'r gefnogaeth gywir i'r unigolyn. Wrth asesu'r plant gallwn weld beth yw ei chmau cynnydd nesaf a sut gall yr ymarferydd cefnogi ac annog y plentyn i gyflawni y cam yma. Un o derminoleg Piaget yw Schemas ac fel y dywedai Louis, Beswick a Fetherstone (2013) fod gan bawb rhyw fath o Schemas a defnyddiwyd yn ei bywydau yn ddyddiol, boed yn schemas mawr neu fach ac mae darganfod pa Schemas sydd gan yr unigolyn yn rhan allweddol o helpu tuag at ddatblygiad plant. Mae gan yr ymarferydd y cyfrifoldeb o ganfod y schemas personol yma a sut i gefnogi hyn. Mae schema yn rhan naturiol o chwarae plentyn ac yn dangos penderfyniadau a dyfalbarhad o sut i wneud rhywbeth mewn ffordd benodol. Awgrymai fod theori Piaget yn dangos dylid annog y schemas yma drwy chwarae. I gyflawni hyn awgrymai i roi adnoddau priodol yn yr ardaloedd priodol i alluogi'r plant i ailadrodd ei schema unigol. Enghraifft o Schema ydy cludo, dyma ble mae'r plentyn yn hoff o symud adnoddau o un lle i'r llall. Gall symud y gwrthrych drwy ei gario, llenwi bagiau neu lenwi pocedi ac yna ei symud ac i gasglu mewn pentwr rhywle arall yn y sefydliad. (Louis, Beswick a Fetherstone 2013)

Cwricwlwm yn Seland Newydd ydy Te Whāriki gan Ministry of Education (2017) a chaeth ei gyflwyno yn 1996 a'i ddiweddarau yn 2017. Mae'r cwricwlwm yma yn canolbwyntio ar adeiladu plant i fod yn hyderus i gael lles emosiynol positif ac i fod y yn wreiddyn y gymuned wrth ddysgu. Nid yw'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar garreg filltir ddatblygiadol y plentyn yn hytrach mae'r cwricwlwm Te Whariki yn ddogfen sydd yn hyrwyddo ar ddatblygu gwybodaeth, sgiliau, agweddau, tueddiadau dysgu a'r gallu i ddatblygu damcaniaethau gwaith. Pwrpas hwn yw cefnogi ac i wneud yn siŵr fod y plentyn yn

gadarn wrth ddechrau yn y systemau ysgol. Cwricwlwm sydd yn seiliedig ar chwarae a chefnogi'r dull cyfrannol sydd yn debyg i theori Vygotsky yn ôl erthygl Hedges (2014). Mae Vygotsky yn rhoi'r plentyn yng nghanol y profiadau dysgu yn gyd-destun a chymdeithasol a diwylliannol. Rhoi profiadau sydd yn rhoi'r cyfle i blentyn i adeiladu ar ei gwybodaeth a deallusrwydd yn fywyd dyddiol yn y sefydliadau. Mae hyn yn mynd law yn llaw hefyd gyda theori Bruner ble dywedai Pound (2016) sut dylai'r ymarferydd cefnogi plant yn y ffordd o fod yn weithgar ac yng nghanol y dysgu. Credwyd fod angen i wneud y plant yn feddyliwr cymhleth ac i annog rhieni ac ymarferydd i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu datblygiad dysgu'r plentyn. Mae Te Whariki hefyd yn gweld y pwysigrwydd o deulu a chymuned fel gwreiddyn y dysgu. (Ministry of Education 2017)

Dywedai Howard a McInnes (2012) er mwyn deall yn gryno bod y chwarae yn wreiddyn y dysgu maen hanfodol i ddeall y pwysigrwydd a'r cyswllt rhwng dysgu a chwarae. Yn yr erthygl gwelwyd pan mae plentyn yn ymgymryd yn chwarae yn rhai amgylchiadau, mae y chwarae yn cael ei gwahardd pan i fod o dan arweiniad yr oedolyn. Mae'r erthygl yn ymchwilio i weld os yw'r chwarae yn cael ei dinistrio os nad yw'r oedolyn yn cymryd y camau cywir. Anogwyd taw'r ffordd fwyaf gwerthfawr o chwarae ydy i edrych ar y chwarae drwy lygaid y plentyn ei hunain. Mae'r ffordd mae plentyn yn chwarae yn rhoi cipolwg o arsylwad, ac mae y ffordd ffurfiol iawn o chwarae ydy i ddysgu drwy chwarae. Dywedai Howard and McInnes (2012) fod chwarae yn helpu i ddatblygu brwdfrydedd, cymhelliant, parodrwydd ac i ymgymryd yn y gweithgaredd yn bositif. Wrth i blant gweld y gweithgareddau fel chwarae strwythur maent yn dod i arfer a chael cwmni oedolyn wrth ymgymryd yn y gweithgareddau yma ac yn dod yn ddibynadwy o gael oedolyn o hyd,. Hynny yw yn dilyn cyfarwyddiadau'r oedolyn yn hytrach na chreadigrwydd ei hunain. Dyma ble gwelwyd os ydy'r gweithgareddau a llai o strwythur ac yn edrych fel chwarae drwy lygaid y plentyn mae hyn yn datblygu'r plentyn i ymgymryd mewn mwy o ddysgu drwy chwarae rhydd ac yn y pendraw yn ehangu ei hunain i fod yn ddysgwyr annibynnol. (Howard and McInnes, 2012)

Cyfeirnodï –

Blynyddoedd Cynnar Cymru (2020) *Foundation Phase*, Ar gael: <https://www.earlyyears.wales/en/foundation-phase>, (Darllenwyd: 11 o Ionawr 2021).

Bottrill, G (2018), *Can I Go And Play Now?: Rethinking The Early Years*. Sage publication.

Brown, F a Cheesman, B (2010) *Playwork: Theory And Practice: Theory and Practice*. Open university press.

Chwarae Cymru (2008a) *Let us out of the bubble wrap. How adults can support children's need for risk*. Ar gael: <https://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/let%20us%20out%20of%20the%20bubble%20wrap.pdf> (Darllenwyd: 2 Ionawr 2021).

Chwarae Cymru (2021b) *Playing and Hanging Out*, Ar Gael: <https://playwales.org.uk/eng/playinghangingout#:~:text=play%20encompasses%20children%27s%20behaviour%20which%20is%20freely%20chosen%2C,themselves%20choose%20when%2C%20how%20and%20what%20to%20play> (Darllenwyd: 4 Ionawr 2021).

Gray, P (2013) *Free to Learn: Why Unleashing the Instinct to Play Will Make Our Children Happier, More Self-reliant, and Better Students for Life*. New York, N.Y.: Basic Books.

Hands on as we grow (2021) *The Magic of Dirt: 10 Benefits of Mud Play*. Ar gael: <https://handsonaswegrow.com/10-benefits-mud-play/> (Darllenwyd: 13 Ionawr 2021).

Hedges, H (2014) 'Young children's 'working theories': Building and connecting understandings', (*SAGE Journals*) Vol. 12, issue. 1, tud. 35-49, Ar gael: <https://journals-sagepub-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/pdf/10.1177/1476718X13515417> (Darllenwyd: 11 Ionawr 2021).

Holecko. C (2020) *Why kids need to take risks in life*. Ar gael: <https://www.verywellfamily.com/why-risk-taking-is-healthy-for-kids-4118491#:~:text=%20Take%20a%20look%20at%20the%20types%20of,Wandering%20alone%20away%20from%20adult%20supervision%20More> (Darllenwyd: 9 Ionawr 2021).

Howard, J a McInnes, K (2012) 'The impact of children's perception of an activity as play rather than not play on emotional well-being', *Child: Care, Health and Development*, Vol. 39, No.5, tud. 737-742. Ar gael: <https://web-a-ebscobhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/detail/detail?vid=0&sid=8ca68df6-f5db-4e69-9ce6-95195915522c%40sessionmgr4006&bdata=JnNpdGU9ZWZWhvc3QtbGl2ZQ%3d%3d#AN=89730685&db=eue> (Darllenwyd: 8 Ionawr 2021).

Lewis, C a Carpendale, J.I.M (2018) '*Cognitive Development Theory*', Child and Family blog [blog]. Ar gael: <https://www.childandfamilyblog.com/early-childhood-development/cognitive-development-theory-2/> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2021).

Louis, S, Beswick, C, Featherstone, S (2013) *Understanding Schemas in Young Children Again! Again!* Bloomsbury Publishing.

Llywodraeth Cymru (2008a) *Addysgeg dysgu ac addysgu*. Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2015b) *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Caerdydd: Cwricwlwm Cymru.

Llywodraeth Cymru (2017c) *Llawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen*. Caerdydd: Cwricwlwm Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008a) *Datblygiad Corfforol*. Caerdydd: Chwarae Dysgu Tyfu Cyfnod Sylfaen 3-7.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008b) *Datblygiad Creadigol*. Caerdydd: Chwarae Dysgu Tyfu Cyfnod Sylfaen 3-7.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011c) *Foundation Phase child development assessment profile*. Caerdydd: Chwarae Dysgu Tyfu Cyfnod Sylfaen 3-7.

McInnes, K, Howard, J, Crowley, K a Miles, G (2013) 'The nature of adult-child interaction in the early years classroom: Implications for children's perceptions of play and subsequent learning behaviour'. *European Early Childhood Education Research Journal*, tud. 268-282, Ar Gael:

https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/448181/mod_resource/content/1/The%20nature%20of%20adult%20child%20interaction%20in%20the%20early%20years%20classroom%20Implications%20for%20children%20s%20perceptions%20of%20play%20and%20subsequent%20learning%20behaviour.pdf (Darllenwyd: 3 Ionawr 2021).

Montessori Nature (2021) *Risk-taking in Play and Everyday Life for Children*. Ar gael: <https://www.montessorinature.com/risk-taking-nature-children/> (Darllenwyd: 11 Ionawr 2021).

Ministry of Education (2017) *Te Whariki Early Childhood Curriculum*. Ministry of Education, New Zealand, New Zealand Government.

Play Scotland (2021) *Managing Risk in Play Provision*. Ar gael: <https://www.playscotland.org/play/playful-learning/managing-risk-play-provision/#:~:text=Risk-Benefit%20Assessment%20is%20an%20easy-to-use%20method%20to%20support,children%20and%20young%20people%20of%20challenging%20play%20experiences> (Darllenwyd: 10 Ionawr 2021).

Pound, L (2016) *Early Years Pioneers – Jerome Bruner, Ar gael:*

<https://www.nurseryworld.co.uk/features/article/early-years-pioneers-jerome-bruner>

(Darllenwyd: 13 Ionawr 2021).

Sandseter, E a Kenmair, L (2011) 'Children's Risky Play from an Evolutionary Perspective: The Anti-Phobic Effects of Thrilling Experiences', *Evolutionary Psychology*, tud.257-284, Ar Gael:

<https://journals.sagepub.com/doi/pdf/10.1177/147470491100900212> (Darllenwyd: 12 Ionawr 2021).

Sandseter, E a Sando, O (2016) "We Don't Allow Children to Climb Trees" How a Focus on Safety Affects Norwegian Children's Play in Early-Childhood Education and Care Settings.